Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr

Adroddiad Blynyddol 2022 - 2023

Adroddiad Blynyddol CAVS

Cynnwys	Tudalen
Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Staff	3
Cyd Ragair a Chroeso	4
Ynglyn â CAVS	5
Prif Gyflawniadau 2022—2023	6
Iechyd a Lles	7
Dysgu a Datblygu	8
Llywodraethu Da	9
Cyllid Cynaliadwy	10
Gwirfoddoli	13
Rhwydwaith Bwyd Sir Gâr	20
Ymgysylltu a Dylanwadu	21
Aelodau CAVS	24

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Staff

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Gillian Wright (Cadeirydd)	-	Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru
Peter Loughran	-	Age Cymru Dyfed
Bill Martin	-	Cymdeithas Neuadd Bentref a Pharc Pum Heol a'r Cylch
Gayle Harris	-	Carmarthen Youth Project (Dr Mz)
Eleanor Shaw	-	People Speak Up
Sandra Llewelyn	-	Carmarthenshire Disability Coalition for Action
Janice Morgan	-	Foothold Cymru
Jonathan Williams	-	CETMA
Andre McPherson	-	Carmarthen Youth Project : Dr Mz (dechreuodd ym mis Ionawr 2023)
Jayne Pritchard	-	Cynrychiolydd Cyngor Sir Gâr (Arsylwr)
Cyng. Ann Davies	-	Neuadd Llanarthne

Staff

Marie Mitchell	-	Prif Swyddog
Jane Hemmings	-	Swyddog Gwirfoddoli
Clare Pilborough	-	Swyddog Ymgysylltu (hyd at 28.10.2022)
Jackie Dorrian	-	Swyddog Cefnogi Datblygu / Iechyd a Lles (hyd at 31.03.2023)
Tom Haskett	-	Cynorthwy-ydd Cymorth Gwirfoddoli
Jamie Horton	-	Swyddog Datblygu Gwirfoddoli Cymunedol
Alud Jones	-	Swyddog Gwirfoddoli
Perminder Dhillon	-	Swyddog Meithrin Gallu
Jan Barwell	-	Swyddog Cefnogi Datblygu
Augusta Lewis	-	Cynorthwy-ydd Rhwydwaith Bwyd Sir Gâr (hyd at 18.06.2022)
Michael Jonas	-	Cynorthwy-ydd Cyllid
Louise Morgan	-	Cydlynydd Swyddfa
Sandra Williams	-	Gweinyddwr Cymorth

Cyd Ragair a Chroeso

Prif Swyddog CAVS, **Marie Mitchell** a'r Cadeirydd, **Gillian Wright**

Mae'n bleser unwaith eto cyflwyno Adroddiad Blynyddol CAVS. Wedi dwy flynedd o ymateb i Covid-19, bu 2022-23 yn flwyddyn o ail-adeiladu wrth i'n hystafelloedd cyfarfod ail-agor yn rhannol. Mae tîm CAVS wedi parhau â'u rôl ddeuol o gefnogi'r sector i ail-gychwyn eu gweithgareddau a darparu ein gwasanaethau arferol ar yr un pryd. Mae staff CAVS wedi parhau i weithio gartref am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, ac mae cyfarfodydd rhwydwaith wedi parhau i fod yn rhithiol.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid strategol ac mae ein gwaith gyda'n cyd Gynghorau Gwirfoddol Sirol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi mynd yn ei flaen, yn rhan o Cefnogi Trydydd Sector Cymru, rhwydwaith o fudiadau cefnogi ar gyfer y Trydydd Sector yn ei grynswth yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth o dan bedwar piler Ymgysylltu a Dylanwadu, Gwirfoddoli, Llywodraethu Da a Chyllido Cynaliadwy.

Gair mawr o ddiolch i'n tîm gwych o staff ymroddedig sydd wedi parhau i gyflawni a chefnogi'r Trydydd Sector yn Sir Gaerfyrddin dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o dan amgylchiadau na allem fyth fod wedi eu dychymygu.

Gobeithiwn y mwynhewch ein Hadroddiad Blynyddol, mae'n rhoi cip ar yr hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn a gobeithiwn y cewch eich ysbrydoli gan gyfoeth ac amrywiaeth y gwasanaethau a ddarperir gan CAVS, o'n swyddogaethau craidd ac ymlaen i'n prosiectau. Wrth inni edrych i'r dyfodol, gallwn ddathlu ymateb y Trydydd Sector yn Sir Gaerfyrddin, sy'n dangos pa mor bwysig yw'r sector.

I gael gwybod mwy am beth rydym yn ei wneud ewch i'n gwefan cavs.org.uk lle y gallwch ddysgu mwy hefyd am ein cynllun aelodaeth rhad ac am ddim newydd a sut allwch fod yn rhan o'n gwaith.

CAVS yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer Sir Gâr

Dyma Amcanion Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr:

"hyrwyddo pob diben elusennol, neu unrhyw rai ohonynt, neu'r rheiny y bernir yn gyfreithiol eu bod, nawr neu maes o law, yn elusennol, er lles y gymuned yng Nghymru, gyda blaenoriaeth benodol i Sir Gâr, trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg."

Elusen Gofrestredig Rhifyn 1062144

Cwmni Cyfyngedig 3348742

CAVS yn rhan o Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r Trydydd Sector yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Nod y rhwydwaith yw galluogi'r Trydydd Sector a gwirfoddolwyr ledled Cymru i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, yn awr ac at y dyfodol.

Swyddfa Gofrestredig

Y Mwnt, 18 Stryd y Frenhines,

Caerfyrddin, SA31 1JT

Ffôn: 01267 245555

E-bost: admin@cavs.org.uk

Safle we CAVS: cavs.org.uk

Facebook: @CAVSCarms

Twitter: @CAVSCarms **&** @GwirfoddoliCAVS

Prif Gyflawniadau 2022-2023

Llywodraethu Da

Nifer y mudiadau a gefnogwyd gyda chyngor a gwybodaeth uniongyrchol

201

Cyllid Cynaliadwy

Nifer y sefydliadau sydd wedi cael eu cefnogi gyda chyngor ariannu cynaliadwy

154

Faint o arian a roddwyd ac a ddosbarthwyd i fudiadau gan CAVS

£145k

Gwirfoddoli

Nifer y gwirfoddolwyr a gefnogwyd i fanteisio ar gyfle gwirfoddoli

59

Nifer y sefydliadau a gefnogir gydag ymholiadau gwirfoddoli

61

Ymgysylltu a Dylanwadu

Nifer y bobl a fu mewn partneriaethau/fforymau/ rhwydweithiau/ digwyddiadau a hwyluswyd

437

Dysgu a Datblygu

Nifer y bobl a gymerodd ran mewn cyrsiau hyfforddiant

86

Iechyd a Lles

Blwyddyn brysur arall i Iechyd & Llesiant, wrth i'r Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Hywel Dda wneud gwaith ar gomisiynu gwasanaethau. Golygodd hynny fod mudiadau yn wynebu cyfnodau mwy heriol i'r dyfodol.

Canolfan Iechyd & Llesiant

Buom yn gweithio gyda Hywel Dda ar ddatblygu'r Ganolfan Iechyd a Llesiant newydd yn Cross Hands – cafodd y gwaith hwn ei atal y flwyddyn cynt oherwydd Pandemig Covid 19. Rydym wedi sicrhau bod gofod yn yr adeilad ar gyfer y Trydydd Sector. Mae hwn yn gyfle gwych i fod yng nghalon y gymuned.

Trafnidiaeth Cymru

Rydym wedi gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru ar ddatblygu trenau newydd ar gyfer yr ardal. Gwaith diddorol iawn!

Cysylltu Cymru / Cysylltu Sir Gâr

Gwefan Cysylltu Cymru—lle y mae Rhagnodwyr Cymdeithasol, Cysylltwyr Cymunedol ac eraill yn gweithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dod at ei gilydd i rannu arfer da a chael gwybod beth sy'n digwydd yng Nghymru ac yn fwy lleol yn Sir

Arweinwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol TSSW

Daw pobl yn gweithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol o Gynghorau Gwirfoddol Sirol at ei gilydd gyda WCVA i drafod materion amrywiol.

Prosiect Cefnogi Unedig Sir Gâr (CUSP)

Mae CUSP yn bartneriaeth ar y cyd yn y Trydydd Sector sy'n anelu at gefnogi pobl i fyw'n dda ac yn annibynnol a lleihau effaith anabledd ac afiechyd. Mae CUSP yn targedu pobl 18+ oed sydd mewn perygl o golli eu hannibyniaeth oherwydd afiechyd neu eiddilwch cynyddol. Mae CAVS yn rhan ganolog o lwyddiant y bartneriaeth a darparodd yr ysgrifenyddiaeth wrth i'r rhaglen barhau i ddatblygu.

Ar ddiwedd Mawrth 2022, cychwynnodd Comisiynwyr yr Awdurdod Lleol y broses o gynnal adolygiad o Wasanaethau Trydydd Sector sy'n darparu gwasanaethau ataliol. Daeth CUSP i ben ym mis Mawrth 2023, ac yn y flwyddyn ariannol newydd yn cychwyn ym mis Ebrill 2023 bydd y gwasanaethau newydd a gomisiynwyd yn dechrau cael eu cyflwyno ar draws Sir Gaerfyrddin.

Cynllun Cyfeillio ar y Ffôn

Er y daeth y cynllun i ben yn swyddogol y flwyddyn gynt, mae carfan o ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n dal i ddibynnu ar y cyswllt a ddarparwyd, ac maent yn dal i gael galwadau gan eu cyfeillwyr gwirfoddol trwy drefniant answyddogol, gan y llwyddwyd i adeiladu perthynas mor dda rhyngddynt.

Dysgu a Datblygu

Nifer y bobl a gymerodd ran mewn cyrsiau hyfforddiant

86

Bu'n flwyddyn gyffrous ar gyfer dysgu a datblygu yn CAVS.

Rydym wedi parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu wyneb yn wyneb ac ar-lein i wella sgiliau, ymddygiadau a gwybodaeth ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr mewn mudiadau Trydydd Sector yn Sir Gaerfyrddin. Roedd hyn yn cynnwys yr hyfforddiant ymyriadau gan wylwyr wyneb yn wyneb 'Aros Gyda Fi' a ariannwyd yn llawn ac a gyflwynwyd gan Communities Inc. Nod yr hyfforddiant, a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin, oedd gwella sgiliau'r sawl a gymerodd ran i ymyrryd os oeddent yn gweld unrhyw un yn wynebu gelyniaeth neu ragfarn yn eu hamgylchedd.

'Mae'r cwrs yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cyson a hirhoedlog ac roeddem yn falch o weithio gyda Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin i ddarparu'r cwrs ac roeddem wrth ein boddau fod mudiadau yn Sir Gaerfyrddin wedi dweud ei fod yn ddefnyddiol iawn' meddai Shamsher Chohan, hwylusydd y cwrs.

Cafodd y cwrs Cymorth Cyntaf Lefel 3 Achrededig ei ddarparu unwaith eto gan ein partner ers sawl blwyddyn *Lifeline Training Operations.* Daeth sawl mudiad ar y cwrs ac mae'r adborth ar gyfer pob cwrs wedi bod yn rhagorol.

Cynhaliwyd nifer o sesiynau ar-lein gan gynnwys sesiwn ar *Wella Amrywiaeth ar Fyrddau, denu a chadw ymddiriedolwyr* yng Nghynhadledd Llywodraethiant Ranbarthol Rithiol Gorllewin Cymru 2022 fu'n edrych ar sut all sgiliau, profiadau a safbwyntiau gwahanol gefnogi trafodaethau llywodraethu iach a chyfrannu at broses gynhwysol o wneud penderfyniadau.

Mae mudiadau ac unigolion yn dal i ddefnyddio'r cyrsiau ar-lein ar Borth Dysgu CAVS.

Cynhaliwyd asesiad o anghenion hyfforddiant y sector. Rhoddodd hyn drosolwg o sut mae mudiadau gwirfoddol yn Sir Gaerfyrddin yn darparu hyfforddiant a datblygiad yn eu mudiadau a'r blaenoriaethau yr hoffent fynd i'r afael â nhw dros y tair blynedd nesaf o dan bedwar piler Ymgysylltu a Dylanwadu; Llywodraethu Da; Cyllido Cynaliadwy a Gwirfoddoli yn ogystal â Chydymffurfiaeth ac Arfer Gorau. Bydd yr asesiad yn cefnogi'r gwaith o ddarparu hyfforddiant a datblygiad i'r sector gwirfoddol dros y tair blynedd nesaf.

Cymorth Llywodraethiant

Cynigiodd CAVS gefnogaeth i ystod eang o grwpiau cymunedol, mudiadau gwirfoddol, elusennau a chanolfannau cymunedol i'w helpu i gychwyn a rhedeg eu mudiadau yn effeithiol a dilyn arferion llywodraethu da.

Cynhaliodd CAVS Gymorthfeydd Ymddiriedolwyr i alluogi ymddiriedolwyr i rwydweithio'n rhithiol a gofyn cwestiynau llywodraethu. Rhedodd CAVS y Rhwydwaith Canolfannau Cymunedol fu'n trafod llywodraethu, cyllido, materion a diweddariadau ar gyfer canolfannau cymunedol.

Darparwyd hyfforddiant ymddiriedolwyr i Fyrddau i gryfhau eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau a dyletswyddau, a rhoi sylw i ymholiadau ar eu sefyllfaoedd, dogfennau llywodraethu, polisïau ac arfer gorau.

Cynorthwyodd CAVS Ymddiriedolaeth Porth Tywi fel hwylusydd annibynnol i eglurhau'r amodau rhwng yr Ymddiriedolaeth a chwmni arlwyo newydd, i lunio trefniant gwaith partneriaeth er mwyn integreiddio'r gwasanaeth caffi yn effeithiol fel elfen allweddol o brosiect sawl-dimensiwn. Darparodd CAVS gyngor creadigol a chefnogol, a galluogodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni ei nodau yn y sefyllfa newydd hon, gan adeiladu perthynas waith gadarnhaol, a olygodd fod y gwasanaeth caffi yn llwyddiant ac y cafwyd rhagor o gydweithio effeithiol.

Cyflwynodd CAVS ei rhaglen aelodaeth ar-lein newydd, a dechreuodd gasglu dogfennau a pholisïau llywodraethu oddi wrth ymgeisyddion, darparu adborth ac awgrymu meysydd i'w gwella ar Gyfansoddiadau a Memorandwm & Erthyglau Cymdeithasiad.

Rhoesom wybodaeth ac arweiniad uniongyrchol ar:

- ☑ ddewis y strwythur cyfreithiol a'r ddogfen lywodraethu iawn, datblygu amcanion elusennol neu bwrpasau budd cymunedol
- ☑ cofrestru'n Sefydliad Elusennol Corfforedig (CIO) gyda'r Comisiwn Elusennau neu'n Gwmni Budd Cymunedol (CIC) gyda Thŷ'r Cwmnïau
- ☑ denu ymddiriedolwyr newydd i wella amrywiaeth a pherfformiad
- ☑ cynyddu gwytnwch trwy gynllunio strategaethau amrywio incwm er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar grantiau
- ☑ hyrwyddo'r Hwb Gwybodaeth, a arweiniodd at fudiadau newydd yn Sir Gaerfyrddin yn ymuno
- ☑ ymddiriedolaeth trwy'r Gynhadledd Lywodraethu Ranbarthol ym mis Mehefin a thrwy hyrwyddo canllawiau 5 Munud y Comisiwn Elusennau ar gyfer Ymddiriedolwyr Elusennau
- ☑ model gyfansoddiadau ar gyfer elusen fach, CIO neu CIC
- ☑ diogelu, rheoli risg, EDI, diogelu data/GDPR, yswiriant
- ☑ cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol a chyfarfodydd eraill yn rhithiol
- ☑ rheolaeth ariannol
- ☑ cytundebau llogi neuaddau
- ☑ datrys anghydfodau ymhlith ymddiriedolwyr a grwpiau cymunedol ehangach

Nifer y mudiadau a gefnogwyd gyda chyngor a gwybodaeth uniongyrchol

201

Cymorth Ariannu

Mae CAVS yn ceisio cefnogi mudiadau i sicrhau a chynhyrchu'r ad-noddau maen nhw eu hangen i dyfu, goroesi a bod yn gynaliadwy.

Yn ystod 2022-23 roedd llawer o fudiadau'n chwilio am arian i fynd i'r afael â'r gostyngiad yn yr incwm a gynhyrchwyd yn ystod cyfnodau clo Covid-19, ac er mwyn eu galluogi i ail-agor ac annog pobl yn ôl allan i'w cymunedau. Danfonodd CAVS wybodaeth am gronfeydd newydd yn syth at grwpiau diddordebau arbennig a thrwy wefan ac e-fwletinau CAVS.

Rheolodd CAVS nifer o gynlluniau grant lleol ac roedd hefyd yn arweinydd rhanbarthol ar gyfer dosbarthu arian Comic Relief.

Dosbarthwyd arian trwy Gronfa Cysylltu Cymunedau Sir Gaerfyrddin a reolwyd trwy CAVS oedd yn golygu y cafodd arian gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin ei ddosbarthu. Roedd yr arian hwn yn cynnwys:

Cronfa Unigrwydd ac Arwahanrwydd Cymdeithasol
Cronfa Seibiant i Ofalwyr Di-dâl
Cronfa Dementia

Cronfa Crëwyr Newid Cymunedol

Cysylltu De Orllewin Cymru – Cronfa Crëwyr Newid ar gyfer mudiadau ar hyd y llinell o Sir Benfro i Gastell-nedd Port Talbot. Cyfle i wneud gwahaniaeth i'r ardaloedd lleol ger gorsafoedd trenau. Gweinyddodd CAVS y grant ar ran SWWCo, a bu'n gweithio'n agos â'r swyddogion i sicrhau bod mudiadau llai yn gwybod am y cyfle.

Nifer y sefydliadau sydd wedi cael eu cefnogi gyda chyngor ariannu cynaliadwy

154

Rhoesom wybodaeth ac arweiniad uniongyrchol i grwpiau a mudiadau unigol ar:

- Ail-ddechrau gweithgareddau, cyllid COVID-19
- ymddiriedolaethau a sefydliadau, gan gynnwys aw-grymiadau ar sut i chwilio Cyllido Cymru a gwefannau cyllid rhad ac am ddim eraill

Rhoesom sylwadau ar geisiadau drafft am arian er mwyn eu cryfhau

Rhoesom wybodaeth gefndir a sylwadau ar ymgeisyddion o Sir Gaerfyrddin i'r cynlluniau cenedlaethol a reolir gan WCVA

Cyllid Cynaliadwy

- Buom yn gweithio'n agos â'r Loteri Genedlaethol, cynhaliwyd sesiynau gweithdai misol wyneb yn wyneb a rhithiol - 53 o fynychwyr
- Gwnaethom drefnu Sesiwn Rwydweithio Cronfa Gymunedol Sir Gaerfyrddin y Loteri Genedlaethol 28 Mehefin 2022, lle y daeth nifer o fudiadau lleol at ei gilydd i gael gwybod am gyfleoedd ariannu a gwaith partneriaeth
- Ionawr 2023 Gwnaethom drefnu Sesiwn Cwrdd â'r Cyllidwyr Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – cefnogwyd 4 mudiad
- Buom yn rhan o ddiweddaru Sicrhau Ansawdd Cyllido Cymru 2022
- Mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Ymarferwyr Cynaliadwy
- Sefydlwyd Padled Cyllido CAVS er mwyn rhoi gwybodaeth barod am y cronfeydd newydd mwyaf perthnasol
- Cwblhawyd sawl asesiad grant ar gyfer cynlluniau grant Cymunedau Treth Tirlenwi a Chychwyn Sero Net WCVA
- Cwblhawyd hyfforddiant sgiliau ar gyfer staff TSSW
- Model hyfforddiant Cynllunio Hwb & Adain Rhanbarthol, i gychwyn gyda Chynlluniau Busnes, ac Ysgrifennu Ceisiadau Ariannol Llwyddiannus i ddilyn
- Darparu Unigrwydd ac Arwahanrwydd Cymdeithasol Rownd 2 (10 mudiad, £21,115)
- Darparu Comic Relief (10 mudiad, £96,667)
- Darparu Grant Gofalwyr (15 mudiad, £26,250)

LocalMotion

Mudiad cyfiawnder cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol

Gan gymunedau, i gymunedau

Mae CAVS yn gweithio gyda LocalMotion gan fod Caerfyrddin yn un o'r 6 lle y dewisodd cyllidwyr weithio â nhw.

Mae'r grŵp Craidd yn cynnwys pobl o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sydd wedi gweithio'n galed i edrych ar sut allwn greu newid systemig yn Nhref Caerfyrddin.

Yn ystod haf 2022 gwnaethom gomisiynu dechrau ein gwaith gyda Llais Caerfyrddin, prosiect a aeth ar y strydoedd i ofyn i bobl leol beth fydden nhw'n ei hoffi.

Dyma fideo byr o'r prosiect:

Llais Caerfyrddin - https://youtu.be/5b9ntVGVOaU

Comisiynodd LocalMotion rywfaint o waith sy'n cael ei wneud mewn ysgolion i gasglu gwybodaeth oddi wrth blant a phobl ifanc, a gobeithiwn y gallwn adrodd yn ôl ar rai o'r canfyddiadau cynnar cyn bo hir.

Carmarthen / Caerfyrddin

LocalMotion.org.uk | Twitter | LinkedIn

"Ein gweledigaeth yw creu'r dref hapusaf a mwyaf ffyniannus yng Nghymru."

Yn olaf lansiwyd prosiect 100 diwrnod o'r enw Ffordd Ymlaen / Streets Ahead ar Stryd y Brenin ar yr 22ain Chwefror 2023.

Mae'r 6 lle yn cwrdd yn rheolaidd a dechreuwyd cynnal ymweliadau lle eleni. Mae Caerfyrddin yn cynnal yr Uwch Gynhadledd ym mis Mehefin 2023!

Cefnogi Mudiadau

Buom yn ceisio cefnogi mudiadau i gynnwys gwirfoddolwyr mewn sefyllfa genedlaethol a gafodd ei newid yn ddirfawr gan y pandemig. Mae llawer o bobl wedi bod yn anfodlon mynd yn ôl i wirfoddoli wedi hoe hir, er gwaethaf ymdrechion cydlynwyr gwirfoddoli i gadw cysylltiad â nhw ar adeg pan oedd llawer o gyfleoedd gwirfoddoli wedi gorfod dod i ben am y tro. Mae llawer o wirfoddolwyr a addasodd eu rolau i ymateb i anghenion gwahanol yn teimlo eu bod wedi ymlâdd. Roedd pobl eraill yn awyddus i wirfoddoli ond yn methu dod o hyd i gyfleoedd addas yn ystod y cyfyngiadau, pan gafwyd gostyngiad mawr yn nifer y cyfleoedd gwirfoddoli agored. Golygodd hynny fod rhai darpar wirfoddolwyr wedi colli diddordeb.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn cyfarfod â nifer o fudiadau i dynnu sylw at ffyrdd y gallem weithio gyda'n gilydd i gefnogi eu prosiectau penodol. Gallwn gynnig arweiniad a chefnogaeth barhaus gyda denu gwirfoddolwyr ac arfer da wrth weithio gyda gwirfoddolwyr, cefnogaeth i ddefnyddio llwyfan Gwirfoddoli Cymru, yn ogystal â chynnig ffilmio fideo Clonc gyda CAVS gyda grwpiau er mwyn hyrwyddo eu cyfleoedd gwirfoddoli a chynnig cipolwg ar y profiad o wirfoddoli.
Mae gennym hefyd gwrs hyfforddi ar-lein, Rheoli Gwirfoddolwyr, ar ein porth dysgu, sy'n rhad ac am ddim ac sydd wedi llwyddo cynnig trosolwg defnyddiol, yn enwedig felly i gydlynwyr gwirfoddoli sy'n newydd i'r rôl, neu sy'n wynebu her benodol.

Cafodd CVON (Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddoli Sir Gaerfyrddin) dri chyfarfod yn ystod y flwyddyn. Ym mis Mehefin cawsom sesiwn hyfforddi fer ar Wirfoddolwyr a'r Gyfraith, a thrafodaethau i ddilyn ar ffyrdd gwahanol o gynnig cefnogaeth i wirfoddolwyr. Ym mis Hydref siaradodd Llinos Evans am ganlyniadau'r arolwg o gynigion llesiant, a buom yn rhannu syniadau am ffyrdd o gynnwys gwirfoddolwyr ifanc. Edrychodd cyfarfod y Gwanwyn ar drafodaethau a gwaith grŵp yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o weminar – gweler y manylion isod.

Gan weithio'n rhanbarthol gyda PAVS Sir Benfro a CAVO yng Ngheredigion, cyflwynwyd gweminar, Gwirfoddoli yn yr 21ain Ganrif, gan Rob Jackson ym mis Ionawr. Llawer o ddiolch i Louise Wilkinson o PAVS am drefnu'r gweminar. Edrychodd ar yr holl ffyrdd y mae'r tirlun gwirfoddoli wedi newid. Cofrestrodd pum deg a dau o bobl ar gyfer y digwyddiad ar draws y tair sir. Aeth y trafod yn ei flaen mewn cyfarfod rhwydwaith, lle y buom yn edrych ar ffyrdd o addasu i gwrdd â'r heriau newydd a cheisio dod yn fwy a mwy hyblyg i ymateb i ofynion newydd gwirfoddolwyr. Penderfynodd y grŵp mai ffordd dda ymlaen fyddai ffurfio perthnasoedd gwaith agosach trwy rwydwaith CVON er mwyn cefnogi ein gilydd, rhannu mentrau, datrys problemau a chynnal trafodaethau. Mae'r gwaith ar gefnogi cydweithio agosach yn mynd yn ei flaen.

Nifer y gwirfoddolwyr a gefnogwyd i fanteisio ar gyfle gwirfoddoli

59

Cefnogi Gwirfoddolwyr

Mae ein gwaith gyda darpar wirfoddolwyr yn amrywiol ac mae'n seiliedig ar anghenion unigol. Trwy roi gwybodaeth a chefnogaeth am leoliadau gwirfoddoli, sy'n gweddu i sgiliau'r unigolyn, a'u hanghenion o ran datblygiad personol a'u diddordebau, rydym yn ceisio cysylltu'r gwirfoddolydd gyda mudiad lleoli priodol.

Rydym wedi gallu rhoi cefnogaeth effeithiol i lawer o wirfoddolwyr trwy gyswllt ebost a ffôn, ac erbyn hyn gallwn gwrdd â gwirfoddolwyr wyneb yn wyneb, fydd yn ddefnyddiol i bobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol, yn ogystal â'r sawl sy'n gweld cyfarfod wyneb yn wyneb yn fwy hwylus a chyfforddus. Yn ystod y cyfnod pan roeddem yn gweithio gartref yn gyfan gwbl, nid oeddem yn gallu cefnogi llawer o wirfoddolwyr allai fod yn brin o hunan-hyder ac sy'n gwerthfawrogi'r anogaeth barhaus o gyfarfod staff CAVS wyneb yn wyneb. Byddwn yn hyrwyddo'r agwedd hon o'n gwaith yn fwy eang i sicrhau y bydd y sawl y mae'n well ganddynt gyfarfod yn CAVS yn gallu elwa o ail-gychwyn y gwasanaeth hwn.

Erbyn hyn mae porth ar-lein CAVS yn cynnig y dewis llawn o gyrsiau hyfforddiant gwirfoddolwyr rhyngweithiol gan y cafodd Paratoi i Wirfoddoli a Gwirfoddoli Ichi (Gwirfoddoli Tuag At Waith) eu hychwanegu at y cyrsiau eraill – Cyfrinachedd, Hyder a Chadw'n Ddiogel.

CVON (Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddoli Sir Gâr)

Mae'r Ganolfan Gwirfoddoli yn gofalu am gyfarfodydd CVON (Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddoli Sir Gaerfyrddin). Mae'r rhwydwaith llwyddiannus hwn yn sesiwn wybodaeth ar gyfer cydlynwyr gwirfoddoli ac mae'n cefnogi dros 200 o grwpiau Trydydd Sector yn y Sir. Mae'r rhwydwaith yn cynnig cyfle i rannu arfer gorau ymhob agwedd ar reoli gwirfoddolwyr a llywodraethu trwy drafodaethau, rhannu gwybodaeth, gweithdai a siaradwyr gwadd yn ogystal â chynnwys CAVS a diweddariadau gan y Ganolfan Gwirfoddoli ymhob cyfarfod. Cafodd CVON dri chyfarfod yn ystod y flwyddyn. Cafwyd cyflwyniadau eleni gan Liz Bickerton ynghylch ei gwaith ymgynghori, Carwen Davies o Tempo Time Banking, ein cydweithraig Jamie Horton ar Cysylltu â Charedigrwydd a Cysylltu Sir Gâr, ein cydweithwraig Perminder Dhillon ar Sgyrsiau Hyfforddi a Llinos Evans yn siarad am yr Ymgynghoriad ar Asesu Llesiant.

Hefyd, cawsom drafodaethau am fater cadw gwirfoddolwyr tra bod cyfyngiadau Covid yn dal ar waith, a sut i ail-gysylltu â gwirfoddolwyr unwaith yr oedd yn ddiogel i wneud hynny. Buom hefyd yn cyflwyno rhywfaint o ficro hyfforddiant ar Wirfoddolwyr a'r Gyfraith, yn ogystal â sesiwn gwaith grŵp ar ffyrdd o gefnogi gwirfoddolwyr. Cyflwynodd Dhillon sesiwn llesiant i'r cyfarfod.

Gweithio mewn Partneriaeth

Eleni, mae Swyddogion Gwirfoddoli CAVS wedi parhau i gadw cysylltiad agos â chyd swyddogion gwirfoddoli mewn Cynghorau Gwirfoddoli Sirol eraill yn rhanbarthol a chenedlaethol, a chafwyd sesiynau sgwrs rhanbarthol, rhannu gwybodaeth a chyd gefnogi gyda chydweithwyr yn PAVS Sir Benfro a CAVO Ceredigion.

Yn rhanbarthol:

Yn unol â'r cydweithredu rhanbarthol hwn, rydym wrthi'n cynllunio cwrs hyfforddi achrededig rhanbarthol Agored Cymru, Rheoli Gwirfoddolwyr, fydd ar gael i bobl o Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, a chan fanteisio ar brofiad ac arbenigedd pedwar Swyddog Gwirfoddoli ar draws y tair sir.

Mae Swyddogion Gwirfoddoli hefyd wedi cefnogi Cysylltu Cymunedau trwy fynychu cyfarfodydd rheolaidd, bwydo syniadau i gyfarfodydd y Gronfa Rhannu Ffyniant i ddatblygu ein cais.

Buom hefyd mewn cyfarfodydd rheolaidd ar yr ymdrech i gefnogi ffoaduriaid o Wcráin, gan gyfrannu at fentrau gwahanol i helpu pobl oedd yn dianc rhag y gwrthdaro yn y wlad honno.

Yn genedlaethol:

Bu staff Canolfannau Gwirfoddoli o Gynghorau Gwirfoddoli Sirol ledled Cymru yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd. Bu hwn yn gyfnod o gryfhau cysylltiadau hyd yn oed pan nad oeddem yn gallu cwrdd wyneb yn wyneb. Mae wedi galluogi Swyddogion Gwirfoddoli ledled Cymru i drafod materion ad hoc sydd wedi codi yn ystod y pandemig yn ogystal â chaniatáu inni drafod yn fanylach y materion a godwyd yng nghyfarfodydd chwarterol y Rhwydwaith Ymarferwyr Gwirfoddoli. Roeddem yn mynychu a chyfrannu i'r cyfarfodydd Rhwydwaith rheolaidd hyn ac roedd dau Swyddog Gwirfoddoli yn mynychu cyfarfodydd pan oedd hynny'n bosib.

Gwirfoddoli Cymru:

Gwefan gwirfoddoli-cymru.net yw'r brif ffynhonnell data ar gyfer gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli ac mae'n cefnogi mudiadau i geisio dod o hyd i wirfoddolwyr, yn ogystal â darparu gwybodaeth i wirfoddolwyr a darpar wirfoddolwyr.

Rydym wedi mynychu cyfarfodydd cenedlaethol is-grŵp Gwirfoddoli Cymru, yn gynrychiolwyr rhanbarthol, gan helpu llywio'r gwaith o gynnal a chadw fersiwn Team Kinetic y wefan, a chyfrannu at greu gwefan newydd, bwrpasol, a ddylai fod yn barod i'w lansio tua diwedd 2023.

Gwirfoddoli Ieuenctid

Adeiladodd y prosiect hwn ar berthnasoedd sydd eisoes ar waith gyda sefydliadau trydydd sector sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ifanc. Roedd y prosiect yn hyrwyddo a datblygu gwirfoddoli i bobl ifanc gyda sefydliadau nad ydynt wedi defnyddio gwirfoddolwyr ifanc yn y gorffennol, ond a oedd eisiau addasu/datblygu gwasanaethau pwrpasol.

Bu'r prosiect yn gweithio'n agos gyda'r Fforwm Ieuenctid y mae'r Panel Grantiau Ieuenctid yn cael ei recriwtio ohono. Mae'r Panel Grantiau Ieuenctid, yn ei dro, yn gyfrifol am reoli Grant dan Arweiniad Pobl Ifanc CAVS, sydd eleni wedi dosbarthu arian i dri sefydliad ar draws y Sir.

Swyddog Datblygu Gwirfoddoli Cymunedol

Mae'r flwyddyn bontio wedi galluogi'r CVDO i wneud mwy o waith ar brosiectau cymunedol heb eu gorffen a gomisiynwyd trwy'r Cyllid Trawsnewidiol.

Hyrwyddo Gwirfoddoli

Mae rhannu newyddion cymunedol a chefnogi cyflawniadau wedi digwydd law yn llaw â gwaith cyfeirio ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddiant, cyllido a chymunedol. Tudalen Facebook Cysylltu Cymunedau Sir Gâr oedd canlyniad terfynol cynllun ymadael Sir Gaerfyrddin ar gyfer ymgyrch Cysylltu â Charedigrwydd. Yn ystod y flwyddyn bontio hon tyfodd i 629 o aelodau a dechreuodd dderbyn cyfraniadau rheolaidd. Wedi treulio dwy flynedd yn gweithio gyda chyfryngau cymdeithasol ac adeiladu/cynnal ymwybyddiaeth gymunedol o rôl y CVDO, CAVS a Sue Smith, mae'r grŵp hwn yn elwa o'r rhwydweithio y tu ôl i'r llenni a'r amser a fuddsoddwyd i gadw'r dudalen yn berthnasol. Profodd i fod yn fuddsoddiad amser doeth a bydd yn parhau i gael ei defnyddio ar gyfer hyrwyddo gwaith y rhaglen RIF i'r dyfodol.

Clonc gyda CAVS

Mae hwn yn gyfrwng ymgysylltu y bydd y Ganolfan Gwirfoddoli yn par-hau i'w archwilio a'i ddatblygu i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd a gallai ddod yn adnodd perthnasol i'r rôl hon wrth edrych i'r dyfodol.

Yn ystod y cyfnod hwn siaradodd y tîm a Ruth Evans, gwirfoddolydd o Cŵn Tywys i'r Byddar; Home-Start; Byddin yr Iachawdwriaeth; Ability Net; a'r Gymuned Carbon.



Rhwydwaith Cysylltu Sir Gâr

Tyfodd Rhwydwaith Cysylltu Sir Gâr i 26 aelod ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd a'r trydydd sector, a defnyddiwyd sianel TEAMS ar gyfer rhannu adnoddau.

Mae'r cyfarfodydd rheolaidd hyn, a chysylltedd y grŵp, wedi profi pa mor bwysig ydyw fod gweithwyr cyswllt ar draws y sir yn siarad â'i gilydd, rhannu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, gan arwain at wella dyfeisgarwch.



Gofodau Cymdeithasol Aml-ddefnydd

Nid yw'r arbrawf gofodau cymdeithasol aml-ddefnydd wedi gallu cyllido unrhyw ofodau cymunedol ychwanegol i brynu offer digidol i ddarparu cyfleoedd 'cyfunol'. Gallaf gadarnhau fod Neuaddau Cymunedol Hengwrt, Talog a Chwmaman oll wedi defnyddio eu tabledi, trwy'r Good Things Foundation, ac maent yn parhau i fanteisio ar gyfleoedd dysgu trwy borth 'Fy Ffordd I', y cyfan er mwyn gwella sgiliau aelodau o'r gymuned a'u cefnogi i gael dealltwriaeth sylfaenol o alluoedd digidol.

Yn ystod y flwyddyn bontio nid oedd rhaid i CVDO gefnogi'r broses a'r ddarpariaeth barhaus hon. Er hynny, roedd CVDO wedi parhau i hyrwyddo CAVS fel partner dysgu ar-lein ac wedi darparu manylion y cyrsiau a rhif aelodaeth CAVS.

Cyfryngau Cymdeithasol

Mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith craidd CAVS wedi cynnwys elfennau gwirfoddoli, cymorth digidol a chynigion hyfforddiant ynghyd â gwasanaethau eraill sydd ar gael i fudiadau trydydd sector. Mae hyn wedi ehangu rhwyd 'masnach arferol' gan fod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cynnwys rhannu'r cyfleoedd sydd ar gael trwy CAVS i grwpiau anffurfiol a llawr gwlad.

Trwy ddatblygiadau personol mae'r CVDO wedi llwyddo i feithrin sgiliau newydd a chefnogi cydweithwyr ym meysydd cyllid a lly-wodraethiant trwy greu clipiau digidol i'w rhannu ar draws padledi a chyfryngau cymdeithasol.

Yn y bôn, mae padledi yn hysbysfyrddau ar-lein lle gallwch bostio gwybodaeth o bob math i'w rhannu gydag eraill, ac roedd hwn yn ymddangos yn adnodd addas am sawl rheswm. Gwelwyd ei fod yn ffordd rwydd o ddarparu gwybodaeth ar-lein mewn un lle fyddai'n diweddaru'n awtomatig e.e. trwy wreiddio padled ar wefan CAVS. Llwyddodd y CVDO i hyfforddi cydweithwyr i greu nifer o asedau ar draws pileri cefnogaeth fewnol CAVS.

Murluniau Caredigrwydd

Fel y nodwyd ar ddiwedd yr adroddiad ar Newid Trawsnewidiol, gobeithiwyd y byddai'r murluniau'n cael eu creu a'u dadorchuddio yn ystod y flwyddyn bontio. Roedd y gefnogaeth oedd ei hangen yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys creu a rhannu deunyddiau cyfryngau cymdeithasol, mynychu a recordio'r dadorchuddio yn y safleoedd gwahanol (ar yr amod fod gofynion diogelwch yn caniatáu), casglu a phrosesu ffurflenni monitro a thystiolaeth ariannol a chreu deunyddiau i roi mwy o sylw i'r murluniau a'r ysgolion.

Meinciau Caredigrwydd

Darparodd y tair Sied Dynion nifer o feinciau o safon ryfeddol ar gyfer eu cymunedau. Roedd crefftwaith pob mainc yn dyst i'r amrywiaeth eang o sgiliau oedd ar gael yn eu Sied, ac i angerdd pob grŵp i gefnogi neges caredigrwydd y rhaglen hon. Cafwyd nifer o gyfleoedd i weithio ar y cyd, gan gynnwys y cyfnodau cynllunio cychwynnol, prynu a storio'r pren a chynhyrchu logos a dylunio'r meinciau.

Rhwydwaith Bwyd Sir Gâr

Dosbarthwyd y Gronfa Tlodi Bwyd trwy Gyngor Sir Caerfyrddin ar ran Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd CAVS eu cais am Gynorthwy-ydd RhBSG ym mis Awst 2021 a llwyddwyd i benodi aelod newydd o staff.

Pwrpas y rôl oedd 'cynorthwyo Rhwydwaith Bwyd Sir Gâr i dyfu a datblygu'n gyffredinol a chyfrannu at dwf ledled y sir, a gwella'r ddarpariaeth i fynd i'r afael â thlodi bwyd ar draws y sir.'

Nod prosiect WPAF oedd y byddai'r Cynorthwy-ydd RhBSG yn gweithio gyda'r grŵp llywio, aelodau'r rhwydwaith, ac actorion eraill yn system fwyd y sir i gyflawni'r hyn a amlinellir yn yr adran uchod. Hefyd, diffiniwyd y metreg i fesur cynnydd ein gwaith ym mraslun y prosiect, sef cyrraedd 1000 o deuluoedd, o leiaf 250 o bobl sengl a 250 o bobl ddigartref gyda'n gwaith, ynghyd â hyrwyddo bwyd iach, maeth a lleihau gwastraff bwyd gan effeithio o leiaf 250 o bobl. Roedd braslun y prosiect hefyd yn amlinellu'r angen i gofnodi deg astudiaeth enghreifftiol o arfer da/blaengar yn hyrwyddo ein gweledigaeth a'n gwerthoedd ledled y sir.

Pwrpas y prosiect oedd gwneud y Rhwydwaith yn fwy amlwg a thynnu sylw at ei waith da, denu cynulleidfaoedd newydd ar draws Sir Gaerfyrddin, tuag at ymagwedd system gyfan integredig at gynhyrchu, prosesu, dosbarthu a defnyddio bwyd, ynghyd ag ymrwymiad i sicrhau mynediad cyfartal at fwydydd llawn maeth.

Rhwydweithiau

Rhwydwaith Iechyd a Lles

Rhwydwaith ar gyfer mudiadau Trydydd Sector i rannu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd o ran iechyd a llesiant ac i gydweithio i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ledled Sir Gaerfyrddin. Mae'r Rhwydwaith wedi cynnig cyfleoedd i drafod â chydweithwyr, i ystyried polisi ac arfer, a'r ffordd orau o gefnogi grwpiau.

Dros y deuddeg mis diwethaf gwelsom gynnydd yn nifer y bobl / mudiadau sy'n mynychu cyfarfodydd y Rhwydwaith. Rydym wedi rhannu gwybodaeth gyda phobl o bob math, a bu hynny'n ysbrydoledig. Er mwyn rhannu gwybodaeth yn fwy prydlon aethom ati i sefydlu Padled Iechyd & Llesiant sy'n cael ei ddiweddaru bron yn ddyddiol.

Nifer y bobl a fu mewn partneriaethau/ fforymau/rhwydweithiau/ digwyddiadau a hwyluswyd

437

Rhwydwaith Plant & Phobl Ifanc

Mae'r Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc wedi cynnig llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth leol, cyfeirio pobl at rwydweithiau eraill a sicrhau nad yw'r negeseuon llawr gwlad yn cael eu diystyru neu eu bychanu. Mae'r Rhwydwaith yn gyfle i bobl yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ddod ynghyd a chefnogi ei gilydd, rhannu eu profiadau a thrafod materion o bwys.

Rhwydwaith Canolfannau Cymunedol

Ni fu'r cyfarfodydd hyn mor rheolaidd ers codi cyfyngiadau Covid-19, ond rydym yn ymwybodol iawn fod angen cefnogi mudiadau i sicrhau bod gan eu pwyllgorau bopeth maen nhw ei angen i allu agor yn ddiogel.

Rhwydwaith Bwyd Sir Gâr

Nod Rhwydwaith Bwyd Sir Gâr (RhBSG) yw dod â phobl at ei gilydd o bob rhan o'r system fwyd i gysylltu, rhannu a chefnogi ei gilydd. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys unigolion, grwpiau cymunedol, busnesau a sefydliadau sy'n awyddus i ddarparu bwyd da i bawb.

CVON - Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr

Rhwydwaith ar gyfer pobl yn gweithio gyda gwirfoddolwyr yn y sectorau gwirfoddol a statudol ar draws Sir Gaerfyrddin. Pwrpas CVON yw cynorthwyo darparu a datblygu gwasanaeth gwirfoddoli effeithiol yn Sir Gaerfyrddin. Mae mudiadau'n cael y cyfle i drafod problemau, rhannu profiadau a syniadau, dysgu am waith ei gilydd a chael gwybodaeth am faterion gwirfoddoli cyfoes.

Cydweithio

Yn ystod 2022-23 by CAVS yn parhau I weithio'n agos gyda phartneriaid statudol i sicrhau bod llais y sector yn cael ei glywed yn y sir. Roedd y sector yn cael adborth trwy ein rhwydweithiau a thrwy wefan, e-fwletin a chyfryngau cymdeithasol CAVS.

Roedd Prif Swyddog CAVS yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynllun Llesiant Sir Gâr

Cymeradwywyd Cynllun Llesiant Sir Gâr 2018-2023 ym mis Mai 2018 ac yna fe ffurfiwyd grwpiau cyflawni i weithredu'r cynllun, gan ganolbwyntio ar y pedwar amcan llesiant allweddol:

Y SIR GÂR A GAREM THE CARMARTHENSHIRE WE WANT

Arferion Iach - Bod gan bobl ansawdd bywyd da, a'u bod yn gwneud dewisiadau iachus am eu bywydau a'u hamgylchedd

Ymyrraeth Gynnar - Bod pobl yn cael yr help priodol ar yr amser iawn; yn ôl y gofyn

Cysylltiadau Cadarn - Pobl, llefydd a sefydliadau sydd wedi'u cysylltu'n gadarn, sy'n gallu addasu i newid

Pobl a Llefydd Llewyrchus - Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl a llefydd yn rhannau trefol a gwledig ein sir

Buom yn gweithio hefyd gyda phartneriaid a phartneriaethau o bob math, gan gynnwys:

- Partneriaeth Addysg Oedolion Gymunedol Sir Gaerfyrddin
- Cyngor Sir Gaerfyrddin
- Bwrdd Gwasanaethau Integredig Sir Gaerfyrddin
- Tasglu Ffoaduriaid Syriaidd Sir Gaerfyrddin
- Canolfan Iechyd a Llesiant Cross Hands
- Grŵp Cefn Gwlad
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Pentref Daioni a Gwyddorau Bywyd Llanelli
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid (Hywel Dda)
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Rhannu Gwybodaeth

Danfonwyd e-fwletin CAVS allan yn rheolaidd, yn rhoi sylw I Newyddion, Digwyddiadau, Hyfforddiant, Cyllid, Ymgynghoriadau, Gwirfoddoli a Swyddi yn y Trydydd Sector. Gall pobl gofrestru i dderbyn yr e-fwletin trwy wefan CAVS.

Defnyddiwyd gwefan, e-fwletin a chyfryngau cymdeithasol CAVS i rannu'r newyddion diweddaraf am ddatblygiadau yn y Sector Cyhoeddus, manylion am ymgynghoriadau, ymgyrchoedd, digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus a gwybodaeth gan bartneriaid a mudiadau Trydydd Sector er mwyn ceisio codi ymwybyddiaeth ac annog a hyrwyddo pobl i chwarae rhan weithredol mewn materion a phryderon lleol.

Infoengine

Gweithiodd CAVS gyda Chymdeithasau Gwirfoddoli Sirol lleol eraill i barhau i ddatblygu a hyrwyddo Infoengine yn brif ffynhonnell gwybodaeth ar-lein am wasanaethau Trydydd Sector ledled Sir Gaerfyrddin a Chymru.

Mae Infoengine yn cynnig ffordd rwydd i fudiadau Trydydd Sector gael presenoldeb ar y we a hyrwyddo eu gwasanaethau ar-lein.

Ymgysylltu a Dylanwadu

Cyllido Cymru

cy.funding.cymru

Dewch o hyd i gyllid i'ch elusen neu'ch grŵp cymunedol gan ddefnyddio ein chwilotwr arlein am ddim.

CAVS

cavs.org.uk

Gwirfoddoli Cymru

https://volunteering-wales.net/



Cofrestrwch eich sefydliad gwirfoddol a'ch swyddi gwag gwirfoddol. Chwiliwch am gyfleoedd.

Infoengine

infoengine.cymru

Infoengine yw'r cyfeirlyfr ar gyfer gwasanaethau Trydydd Sector yng Nghymru. Cofrestrwch eich gwasanaeth neu chwiliwch am wasanaethau yn eich cymuned.

Cefnogi Trydydd Sector Cymru (thirdsectorsupport.wales/cymru)

Mae ein hadnoddau am ddim wedi'u cynllunio i'ch helpu i gadw'n wybodus, gwella'ch gwybodaeth a chysylltu ag eraill.

Adnoddau ar gyfer y Trydydd Sector

Aelodau CAVS

Advocacy West Wales

Age Cymru Dyfed

Antioch Christian Centre

Antiquarian Society

Antur Cymru

Arts Care Gofal Celf

Arts for Wellbeing

BAROD

BAROD CIC

Bro Myrddin Bowls Club

Brynaman Lido Limited

C.Ff.I. Sir Gaerfyrddin

Calan DVS

Canolfan Deuluol Pencader

Canolfan Gymunedol Ystradowen Community Centre

Canolfan y Mynydd Du

Carmarthen Arts

Carmarthen Mind

Carmarthen School Gymnastic Ltd

Carmarthen Youth Project (Dr Mz)

Carmarthenshire 50+ Forum

Carmarthenshire Disability Coalition for Action (CDCFA)

Carmarthenshire Federation of Women's Institutes

Carmarthenshire People First

Carmarthenshire Shopmobility Caerfyrddin

Cartrefi Cymru

CDAS (Carmarthen Domestic Abuse Services)

Cerebra

CETMA

Clybiau Bechgyn a Merched Cymru

Clybiau Plant Cymru Kids Clubs

Coleg Ty'r Eithin / Ruskin Mill Trust

Cymdeithas Neuadd Bentref a Pharc Pum Heol a'r Cylch

Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Gwledig Llanelli

Cyngor Tref Cydweli

Cyngor Tref Llanelli

Cyngor Tref Llanymddyfri

Diverse Cymru

Elidyr Communities Trust

Ferryside Social Enterprise Group (FSEG)

Foothold Cymru

GABS VI Bowls

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin

Greyhound Rescue Wales

Gwili Railway

Gwynfe Community Hall Association

Hafan Cymru

HUTS Workshop

Llamau

Neuadd Llanarthne Village

Llanelli Mind

Llanfynydd Village Society

Llansawel Recreation Field & Hall

Llanybydder Family Centre

Llyfrau Llafar Cymru

Menter Bro Dinefwr

Menter Gorllewin Sir Gâr

Mess Up The Mess Theatre Ltd

MS Society Cymru

Myddfai Community Hall & Visitor Centre

Neuadd Bro Fana / Ffarmers Village Hall

Neuadd Gymunedol Talog

New Pathways

Pembrokeshire Mind

Pencader Improvement & Development Association (PIDA) / Cymdeithas Gwelliant a Datblygu Pencader

Peniel Community Association

People Speak Up

Plant Dewi

Pontyates Welfare Association

Radio Glangwili

Really Pro Ltd

RNID

Stroke Association

The Old Mill Foundation

Threshold DAS Llanelli

Tir Coed

Ty Enfys

United Counties Agricultural & Hunters Society

Versus Arthritis

West Wales Woods

WSSP

WWAMH

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr

Y Mwnt, 18 Stryd y Frenhines,

Caerfyrddin, SA31 1JT

01267 245555

admin@cavs.org.uk

cavs.org.uk